Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Katie Bird**

**Tywyn**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/09/2023

# Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 6 Chwefror 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' i'r Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn gyfforddus yn y lleoliad hwn. Maent yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae. Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Mae'r plant yn cael gofal cyson gan warchodwr plant sy'n eu hadnabod yn dda iawn.

Mae gan y gwarchodwr plant bolisïau a gweithdrefnau manwl sy'n hyrwyddo llesiant y plant. Mae'r amgylchedd yn un gofalgar ac mae'r gwarchodwr plant yn diwallu anghenion unigol y plant yn llwyddiannus.

Mae'r plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân. Mae llawer o le a digon o gyfleusterau er mwyn annog y plant i chwarae a dysgu. Mae'r teganau a'r offer chwarae yn briodol i oedran y plant ac mewn cyflwr da. Mae'r lleoliad yn groesawgar ac yn gyfeillgar.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r lleoliad yn effeithiol. Mae datganiad o ddiben clir sy'n rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth. Mae gan y gwarchodwr plant ddisgwyliadau uchel ac mae'n rhannu ei gwerthoedd am ddysgu ac ymddygiad gyda'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn cydweithio'n dda â'r rhieni i roi gwybodaeth iddynt am y gwasanaeth yn ogystal â llesiant a gofal y plant.

## Llesiant Da

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus gan fod y gwarchodwr plant yn ystyried eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion. Caiff eu safbwyntiau a'u diddordebau eu gwerthfawrogi a gweithredir arnynt. Mae'r plant yn chwarae yn hapus yn ardal y lolfa, gan ddewis eu teganau eu hunain o'r dewis sydd ar gael. Mae'r plant yn gofyn am gael chwarae â'r trac trên, ac mae'r gwarchodwr plant yn gymwynasgar iawn ac yn chwarae ochr yn ochr â nhw.

Mae'r plant yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Gwelsom fod y plant yn edrych ymlaen at chwarae yn yr awyr agored ac yn dweud eu bod am chwarae â'r hambwrdd dŵr. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, maent yn meithrin cydberthnasau ac yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol. Er enghraifft, pan glywodd y plant ei bod yn bryd bwydo anifeiliaid anwes y gwarchodwr plant, roeddent yn awyddus iawn i helpu. Gwelsom fod y plant yn teimlo'n gyfforddus yng ngofal y gwarchodwr plant.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r gwarchodwr plant yn gyson dda ac mae'r plant yn cydweithio'n dda â'r gwarchodwr plant. Clywsom y plant yn ceisio ailadrodd geiriau ac ymadroddion a ddefnyddiwyd gan y gwarchodwr plant. Er enghraifft, pan gwympodd y twnnel ar gyfer y trac trên drosodd, dywedodd y gwarchodwr plant,*“oh no its fallen, we need to fix it, what are we going to do?”*. Gallai'r plant edrych ar y gwarchodwr plant yn chwilfrydig, gan ailadrodd a gofyn,*“what are we going to do?”.* Mae'r plant hefyd yn ceisio addysgu rhai geiriau ac ymadroddion syml i'r gwarchodwr plant yn eu mamiaith. Roedd y plant yn gwrtais ac yn barchus.

Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i gychwyn eu chwarae eu hunain a dylanwadu ar eu tasgau a'u gweithgareddau. Mae'r plant yn cynnal eu diddordeb am gyfnod o amser wrth iddynt chwarae â'r hambwrdd dŵr, gan roi cynnig ar newid maint y chwistrell ar y ffynnon ddŵr cyn penderfynu y byddai'n well ganddynt chwarae â'r diodydd hud a rhoi cynnig ar gymysgu gwahanol liwiau. Mae'r plant yn cael cymorth ac anogaeth gan y gwarchodwr plant i'w helpu i gyfrif sawl pwmp o bob lliw roeddent wedi'u defnyddio i wneud y gwahanol liwiau. Rhoddodd hyn ymdeimlad da o gyflawniad a lefel uchel o hunan-barch i'r plant.

Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Roedd y plant yn eistedd ar gadeiriau 'booster' wrth y bwrdd cinio ac yn dewis yr hyn roeddent am ei fwyta am eu byrbryd yn annibynnol. Gwelsom y plant yn symud o gwmpas y lleoliad yn ddirwystr, gan ddewis adnoddau gwahanol pan oeddent am chwarae â rhywbeth newydd. Mae gan y plant lais cryf, maent yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu, ac mae eu llesiant yn cael ei hyrwyddo'n dda iawn.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn creu awyrgylch magwrus a gofalgar, ac mae ganddi ddealltwriaeth drylwyr o anghenion a galluoedd unigol y plant. Mae'n ymroddedig ac yn llawn cymhelliant i ddarparu gofal a gweithgareddau sydd â'r nod o hyrwyddo cyfleoedd dysgu a chwarae'r plant. Er enghraifft, dangosodd y gwarchodwr plant ffotograffau i ni o weithgareddau yr oedd y plant wedi'u cwblhau er mwyn dysgu am gylch bywyd lindysyn. Roeddent wedi gwylio'r lindysyn yn tyfu a throi yn bili-pala y gallent ei ryddhau yn yr ardd. Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant. Mae'n cynllunio'n dda ac yn ymwybodol o gamau nesaf y plant. Mae'n monitro ac yn cofnodi cynnydd y plant yn fisol; gan gofnodi eu llwyddiannau, uchafbwyntiau ac unrhyw gamau nesaf neu bethau i weithio arnynt gartref. Gwelsom ei bod yn defnyddio'r wybodaeth am gynnydd datblygiadol y plant i gefnogi'r gwaith o gynllunio ar gyfer y dyfodol a'i bod yn teilwra'r gweithgareddau i ddiwallu anghenion unigol y plant.

Mae gan y gwarchodwr plant bolisïau a gweithdrefnau manwl ar waith, ac mae'n eu deall, er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant personol y plant. Mae ganddi asesiadau risg manwl ac mae'n nodi ac yn rheoli risgiau'n weithredol. Mae'n rhoi blaenoriaeth i ddiogelu ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Fodd bynnag, nid yw wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein ar atal radicaleiddio. Mae'n rhoi ystyriaeth dda i iechyd a diogelwch y plant, gan storio meddyginiaeth yn ddiogel a chofnodi ac ystyried gofynion meddygol ac alergeddau'r plant yn glir. Mae gan y gwarchodwr plant weithdrefnau glanhau ac arferion hylendid trylwyr ar waith. Er enghraifft, mae'n sychu arwynebau yn rheolaidd, yn annog y plant i olchi eu dwylo gan ddefnyddio dŵr sebon cynnes, ac yn golchi ei dwylo ei hun yn drylwyr wrth helpu'r plant â'u hanghenion toiled. Fodd bynnag, nid oes gan y plant dywelion unigol neu dywelion papur i sychu eu dwylo.

Mae'r gwarchodwr plant yn dangos ei bod yn adnabod y plant yn dda iawn. Mae'r gwarchodwr plant yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol, gan gynnwys canmoliaeth reolaidd. Mae'n dangos esiampl dda ac yn hyrwyddo cwrteisi. Clywsom lawer o ganmoliaeth ar gyfer ymddygiad cadarnhaol yn ystod ein hymweliad. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'r plant eu dilyn ac yn eu hannog i gymryd perchnogaeth dros bopeth y maent yn ei wneud. Mae'r rhyngweithio rhwng y gwarchodwr plant a'r plant yn gynnes ac yn gyfeillgar, er enghraifft, "*would you like to help choose the toys*". Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r rhyngweithio mewn modd cadarnhaol ac adeiladol. Mae'n atgoffa'r plant i fod yn garedig ac yn ofalus.

## Yr Amgylchedd Da

Mae cartref y gwarchodwr plant yn gyfforddus, yn gynnes, yn ddeniadol ac mewn cyflwr da. Mae gan y gwarchodwr plant asesiadau risg effeithiol a chywir ar waith, ac mae'n eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'n cwblhau ac yn cofnodi ymarferion tân yn rheolaidd, ac mae ganddi weithdrefnau brys ar waith gan gynnwys ffurflenni cydsynio meddygol brys ar gyfer pob plentyn. Mae wedi cwblhau asesiadau risg ysgrifenedig ar gyfer y safle, tripiau, ymweliadau, gweithgareddau ac unrhyw ddefnydd a wneir o'i cherbyd. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddigon diogel. Er enghraifft, mae'n cadw'r drws ffrynt ar glo gan ddefnyddio system gloi, ac mae'n sicrhau bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau, fel gwirio'r boeler.

Mae gan y gwarchodwr plant ardal chwarae dan do dda lle gall y plant symud o gwmpas yn rhydd. Mae'r gwarchodwr plant wedi trefnu'r amgylchedd yn dda er mwyn darparu amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae i'r plant. Mae'n darparu amgylchedd sy'n cefnogi annibyniaeth y plant yn ogystal â gweithgareddau chwarae addas. Gall y plant gael gafael yn hawdd ar rai adnoddau o'r storfa deganau sydd yn y lolfa. Mae'r gwarchodwr plant wedi defnyddio grant i brynu ystafell ddosbarth awyr agored yn ddiweddar. Caiff mwy o deganau ac adnoddau eu storio yma gan gynnwys llyfrau, tŷ doliau, teganau pren, blociau, cegin chwarae rôl, doliau, jig-sos, posau, adnoddau naturiol, tractorau, trac trên, teganau synhwyraidd ar gyfer babanod ac anifeiliaid fferm.

Mae'r ardal awyr agored sydd yng nghefn yr eiddo yn darparu digon o le i'r plant chwarae. Mae gan y gwarchodwr plant gynlluniau i ddatblygu'r ardal awyr agored ymhellach er mwyn darparu lle mwy addas ar gyfer y plant. Mae'r ardal awyr agored yn ddiogel i'r plant, gyda ffens a giât o'i hamgylch. Mae'r gwarchodwr plant yn helpu'r plant i fynd i'r ardal awyr agored ac yn eu gwylio'n agos. Yn yr ardd, mae pwll tywod, cyfarpar chwarae dŵr, cegin fwd, gwesty pryfed, tryciau, rampiau, a theganau reidio ar gael i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn defnyddio'r ardal chwarae awyr agored mor aml â phosibl.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Da**

Caiff y lleoliad ei reoli'n dda gyda pholisïau a gweithdrefnau cyfredol. Mae'r gwarchodwr plant yn gymwys iawn. Mae'r gwaith cynllunio yn dda ac yn ystyrlon, gan gefnogi canlyniadau i'r plant. Mae'n darparu gwasanaeth lle mae'r plant wrth wraidd pob penderfyniad ac mae eu llesiant yn hollbwysig. Mae gan y gwarchodwr plant weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad ac mae'n rhannu ei brwdfrydedd ag eraill. Mae ganddi ddiwylliant cadarn o ddatblygiad personol parhaus. Mae'r gwarchodwr plant yn arwain drwy esiampl ac yn sicrhau ei bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am arferion gorau sy'n berthnasol i'r plant yn ei gofal.

Mae gan y gwarchodwr plant ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun a datganiad o ddiben clir ar gyfer ei lleoliad. Mae'r datganiad o ddiben yn fanwl ac yn gyfredol, sy'n adlewyrchiad cywir o'r gwasanaeth a ddarperir. Drwy drafod â'r gwarchodwr plant, gwelsom ei bod yn agored i syniadau newydd ac yn croesawu'r angen i wella'n barhaus. Mae'n bwrw ati i roi prosesau hunanwerthuso ar waith, ac yn gofyn am awgrymiadau gan y plant, eu rhieni/gofalwyr a phartneriaid eraill â diddordeb, ac yn eu rhoi ar waith. Roedd yr adolygiad diwethaf a gynhaliwyd ganddi o ansawdd y gofal yn cynnwys targedau ar gyfer gwella'r lleoliad. Mae'n cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol ac mae'n rhagori'n aml ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig. Mae'r gwarchodwr plant yn wybodus ac yn frwdfrydig am ei chyfrifoldebau.

Mae gan y gwarchodwr plant y gwaith papur perthnasol sydd ei angen. Er enghraifft, mae ganddi gofnodion llawn a chywir o bresenoldeb y plant a'u gwybodaeth bersonol. Mae'r gwarchodwr plant wedi trefnu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac mae ganddi ddogfennau cerbyd priodol. Mae ganddi ddealltwriaeth dda o'i rôl mewn perthynas â diogelu data, cyfrinachedd a chadw data, ac mae'n sicrhau bod gwiriadau dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer pob aelod o'r cartref. Mae ganddi bolisïau effeithiol a gwelsom fod y rhain yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg ac mae'n gwneud ymdrech gadarnhaol i siarad Cymraeg â'r plant mor aml â phosibl. Er enghraifft, ymadroddion a chyfarchion achlysurol. Mae'n cyfathrebu'n effeithiol â'r rhieni ac yn rhannu dyddiadur dyddiol manwl iawn sy'n cynnwys gwybodaeth am yr hyn y mae'r plant wedi ei fwyta, eu patrymau cysgu, newidiadau cewynnau, a gweithgareddau. Mae gan y gwarchodwr plant bartneriaethau cadarnhaol â'r rhieni.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 22 - Yr amgylchedd | Sicrhau y caiff tywelion papur neu dywelion unigol eu darparu ar gyfer pob plentyn. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Cwblhau hyfforddiant ar ddyletswydd atal. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/11/2023